

# JAMES ARTHUR

## YN CAEL EI GYHOEDDI FEL GWESTAI ARBENNIG PALOMA FAITH YN STADIWM ZIPWORLD, BAE COLWYN

Mae'n bleser gan Orchard Entertainment gyhoeddi y bydd James Arthur, artist rhif #1 y DU, yn cefnogi Paloma Faith yn Stadiwm Zip World, Bae Colwyn ddydd Sadwrn 14 Gorffennaf 2018. Hefyd yn cefnogi bydd Nia Wyn, y ferch leol o Landudno. Mae tocynnau ar werth rŵan drwy [Ticketmaster.co.uk](http://Ticketmaster.co.uk), drwy alw yn Venue Cymru neu drwy ffonio'r Swyddfa Docynnau ar 01492 872000.

Saethodd James Arthur i enwogrwydd yn 2012 pan aeth ei sengl platinwm dwbl *Impossible* yn syth i rif #1 drwy werthu dros 1.4 miliwn o gopiâu – gan ddal y record hyd yma i unrhyw sengl gyntaf a ryddhawyd gan enillydd y sioe 'X Factor'. Ers hynny mae James wedi rhyddhau 2 albwm platinwm gan gynnwys *Back to the Edge* yn 2016 a oedd yn cynnwys y sengl rhif #1 *Say You Won't Let Go* y gwrandawyd arni dros 750 miliwn o weithiau ar Spotify! Hyd yn hyn mae'r canwr o Middlesbrough wedi gwerthu 8 miliwn o recordiau sengl, 1.6 miliwn o albymau ac wedi cael ei enwebu am lu o wobrau gan gynnwys dau enwebiad ar gyfer Gwobrau Cerddoriaeth Prydain ac un ar gyfer Gwobrau Cerddoriaeth America.

Yn 2018 bydd yr artist llewyrchus yn adeiladu ar lwyddiant 2017 brysur pan deithiodd gyda One Republic ar draws America; pan gwblhaodd daith 11 cyngerdd ar hyd a lled y DU a phan lwyddodd hefyd i ddod o hyd i ddigon o amser i gydweithio gyda Rudimental ar eu record *Sun Comes Up* a gyrhaeddodd y 10 uchaf yn y siartiau yr haf diwethaf. Does dim golwg y bydd James yn arafu yn ystod 2018 wrth iddo barhau i weithio ar ei albwm newydd gyda'r cynhyrchwyr Ryan Tedder (One Republic), Justin Tranter (*Sorry Justin Bieber*, *Issues* Julia Michaels) a Max Martin (*I Can't Feel my Face* The Weekend a *Swift's Style* Taylor Siwft).

Hefyd yn cefnogi Paloma Faith bydd Nia Wyn sy'n gyfarwydd iawn â Bae Colwyn gan mai merch leol o Llandudno yw hi. Mae talent Nia i gyfleu stori mewn ffordd gignoeth a phwerus ochr yn ochr â'i llais anghyffredin, cyfareddol yn creu carisma cyffrous, herfeiddiol sy'n wydn ac yn gynnes ar yr un pryd, ac sy'n gwneud iddi sefyll allan yn erbyn cefndir o artistiaid benywaidd ifanc sy'n dod i'r amlwg yn y DU ar hyn o bryd. Mae Nia wedi gwneud argraff fawr mewn cyfnod byr o amser - mae ei recordiau wedi'u cynnwys ar restr chwarae Blues Radio 2, enillodd nawdd gan gynllun Gorwelion y BBC ac yn ddiweddar trydarodd y bu yn y stiwdio gyda thad y 'mods', Paul Weller!

Mae'r ddau artist ifanc yn ymuno ag enillydd Gwobrau Cerddoriaeth Prydain, Paloma Faith, yn y sioe haf flynyddol yn Stadiwm Zip World, Bae Colwyn. Y llynedd rhyddhaodd yr artist platinwm dwbl x 3 ei 4ydd albwm stiwdio, *The Architect* - ei halbwm rhif #1 cyntaf yn siartiau'r DU. Mae *The Architect* yn dilyn llwyddiant aruthrol ei halbwm *A Perfect Contradiction* a fu yn neg uchaf y siart albymau am 29 wythnos, yn y 40 uchaf am 66 wythnos ac yn y 200 uchaf am 100 wythnos. Sengl Paloma oddi ar yr albwm *The Architect*: '*Only Love Can Hurt Like This*,' yw ei sengl fwyaf llwyddiannus hyd yma gyda dros hanner miliwn o gopïau wedi'u gwerthu a 55 miliwn gwrandawriad ar Spotify .

Y cyngerdd ym mis Mehefin fydd y cyntaf yn stadiwm o dan ei enw newydd, Stadiwm Zip World, ac mae'n cael ei hyrwyddo gan gwmni a enwyd yn Hyrwyddwr Rhanbarthol y Flwyddyn ddwywaith, sef Orchard Entertainment, sydd wedi dod a lluo o sêr i Fae Colwyn dros y saith mlynedd ddiwethaf.

Cefnogir y cyngerdd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Tref Bae Colwyn. Heart FM yw'r Partneriaid Cyfryngau.

**Paloma Faith**

**gyda'i gwesteion arbennig**

**James Arthur a Nia Wyn**

**dydd Sadwrn 14 Gorffennaf 2018**

**Stadiwm Zip World**

Tocynnau ar gael o

[www.ticketmaster.co.uk](http://www.ticketmaster.co.uk) | [www.venuecymru.co.uk](http://www.venuecymru.co.uk) | 01492 872000

[Seetickets.com](http://Seetickets.com) | [Venue Cymru](http://Venue Cymru) (Llandudno) | [Stadiwm Zip World](http://Stadiwm Zip World) (Colwyn Bay)

\*Am fynediad i Blatfform Gwyllo Hygyrch ffoniwch 01492 872000

\*Am ymholiadau ynglŷn â blychau Lletygarwch a VIP, ffoniwch 02920 100920

Web: [www.jamesarthurofficial.com](http://www.jamesarthurofficial.com) | [www.palomafaith.com](http://www.palomafaith.com) | [www.niawynmusic.com](http://www.niawynmusic.com)  
| [www.orchardentertainment.co.uk](http://www.orchardentertainment.co.uk)